

## Gwnaeth bopeth yn hyfryd yn ei amser MYFYRDOD AR DDIWEDD YR HYDREF

“Gwnaeth bopeth yn hyfryd yn ei amser, a hefyd rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonau pobl; eto ni all neb ddirnad yr hyn a wnaeth Duw o'r dechrau i'r diwedd. Yr wyf yn gwybod nad oes dim yn well i bobl mewn bywyd na bod yn llawen a gwneud da, a gwn mai rhodd Duw yw bod pob un yn bwyta ac yn yfed ac yn cael mwynhad o'i holl lafur. Yr wyf yn gwybod hefyd fod y cyfan a wna Duw yn aros byth; ni ellir ychwanegu ato na thynnu oddi wrtho. Gweithreda Duw fel hyn er mwyn i bobl ei barchu. Llyfr y Pregethwr 3:11-14”



Abba, Dad, o'm cwmpas gwelaf goedlannau'n llawn o ogoniant yr haf a fu, a'r perthi'n llawn o sgerbydau crin mwyar duon. Ac y mae ynom hiraeth am wres, am des ac am ddyddiau da.

Ac yn awr a'r nosweithiau'n hirhau a'r dyddiau'n byrhau, harddwch a hyfrydwch a welwn o'n hamgylch o hyd – hyd yn oed yn nhranc gwaedlyd yr haf a fu. Prin yw'n gallu i fynegi'n llawn ein diolch am dy garedigrwydd tuag atom. Disgleirio mae gogoniant dy weithgarwch di o'n hamgylch.

Yn wir, mae'r nefoedd a'r ddaear yn llawn o'th ogoniant.

Newid mae'r tymhorau.

Newid byddwn ni.

Rwy'ti'n aros dy hun,

yn fythol newydd,

yn fythol hen,

yn fythol fyw,

yn dragwyddol hardd.

Arglwydd, dena ein calonnau ar dy ôl.

Dena ein calonnau at yr hardd, y gwir, yr hyn sy'n ddyrchafol,

At fywyd, at Fyw, at Iesu.

A chaniatâ i ni drwy ffenestri gras i'th adnabod yn well.

O dirion Dad, caniatâ i ninnau,

ym mhob tymor o'n hoes adlewyrchu dy harddwch a'th ogoniant.

Yn ein siarad,

Yn ein gwerthoedd,

Yn ein meddwl.

Cymer y cyfan oll er mwyn dy glod.

Er mwyn dy Fab,

Amen

(Rhagor o weddïau Hydref ar dudalennau 2 a 7)